# TAITH GERDDED DYFFRYN CEIRIOG

## Dydd Sadwrn Medi 29 2012. Cychwyn am 9:30 yb

## Hyd y daith. tua 8 milltir
## Amser er mwyn cwblhau'r daith, tua 5 awr

## Taflen Wybodaeth a map (Cyfeiriwch y rhifau canlynol gyda rhifau tebyg sydd ar y map)

1. **LLANARMON DYFFRYN CEIRIOG. Cafodd y pentre ei enw ar ol y sant Garmon, Esgob Ffrenig yn y bumed ganrif. Mae mynwent Sant Garmon yn cynnwys twmpath pregethu, a oedd yn debygol o fod yn cael eu ddefnyddio. Lleolir y twmpath ger dwy goeden ywen, sydd dros fil o flynyddoedd oed.**

2. **FFERM SARFFLE. Yn 1920, darganfuwyd 500 o ddarnau arian Rhufeinig yma a anfonwyd ir amgueddfa Brydeinig. Yn 2003, dangosodd lluniau awyrol dystiolaeth o olion gwersyllt Rhufeinig ir Gorllewin o Swch Cae Rhiw, sydd efallai yn awgrymu mai hen ffordd Rufeinig yw hon.**

3. **FFERM DOLWEN. Mae Dolwen yn ffermdy hynafol, ac yn ol hanes yn gysylltiedig a Tywysog Cymru sef Owain Glyndwr a arweiniodd wrthryfel yn erbyn goresgyniad y Saeson yn y bedwaredd ganrif ar ddeg. Dywedir fod chwaer Owain Glyndwr, sef Lowri, yn byw ym Mlaen Nantyr, neuadd a oedd yn dyddio yn ol i'r canol oesedd. Roedd y neuadd yma yn sefyll tafliad carreg or neuadd sy'n bodoli heddiw, sef Plas Nantyr ger Blaen Cwm. Ceir hefyd dy bach yn Nolwen fel y rhai sydd iw gweld mewn castelli canol oesol.**

4. **FFERM PENTRE. Mae'r teulu Edwards wedi byw yn y ffermdy yma am dros fil o flynyddoedd.**

5. **Mae'r ardal yma yn ddarn o fynyddoedd y Berwyn sydd wedi cael eu ddynodi yn Ardal Cadwraeth Arbennig (YACA) a Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA). Mae'r Berwyn yn gefnen hir o rostir mynyddig sy'n ymestyn o Langollen i Ddinas Mawddwy. Dyma un o'r ardaloedd mwyaf eang a deniadol o weundir ucheldirol sydd ar ol yng Ngymru. Mae rhostiroedd grugog yn ardaloedd o dir sydd heb eu trin a lle mae'r llystyfiant yn cynnwys cymysgedd o laswelltir byr a chorlwyni sy'n tyfu fel rheol ar briddoedd sur. Mae grug, glaswellt a rhedyn yn gorchuddio'r llethrau serth tra bod creiglus ac ambell blanhigyn o lusen goch a chaineirian bach yma hefyd. Mae ansawdd y gweundir yn uchel iawn ac mae'r llwyni grug yn dangos amrywiaeth o oedran a chyflwr tyfiant.**

**Mae mynyddoedd y Berwyn yn cynnal yr ardal fwyaf eang yng Ngymru o orgors sydd bron yn naturiol. Ar y mawn dwfn, gwlyb sy'n gorchuddio'r cefnau tyner mae grug, plu'r gweunydd a gwahanol fathau o figwyn a mwsoglau eraill yn tyfu'n drwch. Mae llwyn mwyar y Berwyn, gyda'i flodyn gwyn a'i aeron oren deniadol, yn tyfu yma yn agos at ei ffin fwyaf deheuol ym Mhrydain.**

**Mae'r Berwyn hefyd yn cynnal un o'r casgliadau bridio mwyaf amrywiol o adar ucheldirol i'r de o ucheldir yr Alban. Ar y mynyddoedd hyn bydd adar fel y rugair goch**

**a’r rugair ddu yn canfod cysgod ac yn bwydo ar y grug, tra bydd adar ysglyfaethus fel y cudyll bach, y boda tinwyn a’r hebog tramor yn esgyn yn uchel uwchben y rhostir.**

6. **FFORDD Y SAESON. Yn y flwyddyn 1165 credir fod Henri’r ail wedi croesi Dyffryn Ceiriog yn Nhregeiriog a wedi ymdeithio ar hyd ffordd y Saeson tuag at y rhostir llwm sydd ir Gorllewin o Nantyr. Mae’r tir hwn yn gorsiog ac nid oes unrhyw fath o gysgod a thanwydd iw gael yma. Bu brwydyr rhwng Harri’r ail ar Cymru yng nglawdd Offa mewn man or enw Tir y Beddau. (Mae’r tir yma hefyd wedi cael ei ddynodi’n Dir Mynediad).**

7. **FFERM PENYBRYN. Mae’r ffermdy hwn yn fan geni i un o feirdd enwocaf Cymru sef John Ceiriog Hughes a aned ar y 25 o Fedi 1832 a bu farw yn mis Ebrill 1887. Yn 1932, fe adeiladwyd neuadd canmlwyddiant Llanarmon Dyffryn Ceiriog I ddathlu canmlynedd ers genedigaeth y bardd John Ceiriog Hughes.**

**Yn 1923, daeth bygythiad o foddi Ddyffryn Ceiriog i sylw’r trigolion lleol, gyda canllawiau i adeiladu dwy gronfa ddwr er mwyn sicrhau cyflenwad dwr i ardal “Warrington” yn Lloegr. Roedd lleoliad y cronfeydd yn golygu boddi tri pentref, sef Llanarmon, Tregeiriog a Pentre Bach. Fel y gellir ei ddychmygu, daeth gwrthwynebiad cryf ir cynlluniau o bob cornel o Gymru. Fe sefydlwyd cronfa amddiffyn, a bu i’r mater gael ei drafod yn Nhy’r Cyffredin. Y Prif Weinidog Lloyd George chwaraeodd ran bwysig er mwyn sicrhau nad oedd y cronfeydd yn cael eu hadeiladu, a bu ir mater gael ei ddirwyn i ben.**